

**Y Pwyllgor Iechyd a  
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care  
Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

22 Tachwedd 2021


Annwyl Eluned

Cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio gan y GIG

Ar 4 Tachwedd 2021, fe wnaethoch gyhoeddi £170 miliwn o gyllid blynyddol ychwanegol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gan y GIG a chreu Cronfa Arloesi Gofal wedi'i Gynllunio gwerth £1 filiwn. Er ein bod yn croesawu'r cyllid ychwanegol hwn, byddem yn gwerthfawrogi eglurhad ar y materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn **dydd Iau 2 Rhagfyr**.

Yn ogystal, byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth. Bydd fy nghlerc mewn cysylltiad â'ch swyddogion cyn bo hir i'ch gwahodd i sesiwn dystiolaeth lafar yn y flwyddyn newydd, ac i drafod yr amserlenni ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig ar y materion yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.




# Atodiad: cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio gan y GIG

Yn dilyn y [cyhoeddiad ar 4 Tachwedd 2021](#) o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio gan y GIG, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd lau 2 Rhagfyr.

Dyrannu cyllid

Nodwn o'r ystadegau amseroedd aros a gyhoeddwyd gan StatsCymru ym mis Hydref 2021, a ddangosir yn y ffigur isod a baratowyd gan Ymchwil y Senedd, fod rhywfaint o amrywiaeth ar draws byrddau iechyd o ran canran y llwybrau cleifion sy'n aros dros 36 wythnos i ddechrau triniaeth.

**Ffigur 1 Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, 26 i 36 wythnos a thros 36 wythnos i ddechrau triniaeth gan BILL; Ebrill 2019 i Awst 2021**



Ffynhonnell: StatsCymru, [Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr](#). (ffigur a baratowyd gan Ymchwil y Senedd)

1. Pa ffactorau a allai fod yn cyfrannu at yr amrywiad yn yr amser y mae pobl yn aros i ddechrau triniaeth mewn ardaloedd byrddau iechyd gwahanol, a pha rôl sydd gan Lywodraeth Cymru o ran hwyluso'r broses o rannu dysgu ac arloesi rhwng byrddau iechyd?
2. Bydd y £170 miliwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng byrddau iechyd ar sail poblogaeth. Wrth bennu'r dyraniad hwn, pa ystyriaeth a gymerwyd o unrhyw amrywiad yn y ddemograffeg, graddau amddifadedd neu faint yr ôl-groniadau amseroedd aros ym mhob bwrdd iechyd?

3. Disgrifir y £170 miliwn ychwanegol fel cyllid blynyddol; am sawl blwyddyn rydych chi'n disgwyl i'r cyllid hwn fod ar gael?
4. Rydych chi wedi gofyn i fyrddau iechyd ddatblygu cynlluniau ar gyfer sut y byddant yn defnyddio'r cyllid hwn i drawsnewid eu gwasanaethau; pryd rydych chi'n rhagweld y caiff y cynlluniau hyn eu cyhoeddi, a pha gyfnod rydych chi'n disgwyl i'r cynlluniau ei gwmpasu?